**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 13eg Mai 2013 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2 y prynhawn.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng. A M Jones (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. P Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clerc a Swyddog Monitro); K Finch (Trysorydd); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P Claydon, R Simmons ac R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G W Griffiths (Uwch Reolwr Datblygu); L Roberts (Uwch Reolwr yr Ystafell Reoli a Pharhad Busnes); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau).

YN ARSYLWI: Y Cyng. J R Skelland (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. P W Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Datganodd y Cyng. P Pemberton fuddiant mewn perthynas â'r adroddiad ar Brosiect Tân ac Ambiwlans Wrecsam yn rhan II gan ei fod yn aelod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Dywedodd y Clerc mai buddiant personol yn unig y byddai angen i'r Cyng. Pemberton ei ddatgan, a nodwyd hyn.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 4YDD CHWEFROR 2013

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cyflwyno i'w cymeradwyo. Dywedodd y PSTC Simmons wrth yr Aelodau fod gwall bach ym mharagraff 4.3 ac y byddai'r cofnodion yn cael eu newid cyn iddynt gael eu llofnodi gan y Cadeirydd a'u rhoi ar y wefan.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion a nodi y byddai paragraff 4.3 yn cael ei newid cyn iddynt gael eu cyhoeddi.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd dim materion yn codi.

4 GWEITHGOR Y CYNLLUN GWELLA: DIWEDDARIAD AR LAFAR

4.1 Roedd cyfarfod o'r gweithgor wedi eu cynnal ar fore'r 13eg o Fai. Darllenodd y Prif Swyddog Tân ddatganiad yn rhoi crynodeb o'r cyfarfod:

> "Cafodd cyfarfod o Weithgor y Cynllun Gwella ei gynnal fore heddiw, a'r unig eitem ar yr agenda oedd Strategaeth Ariannol y Gwasanaeth am flynyddoedd ariannol 2014/15 i 2016/17, yn gynwysiedig.
>
> Cytunodd yr Aelodau ar gyfres o ragdybiaethau, ac fe'u cynghorwyd yn fanwl iawn am y risgiau posibl a'r effeithiau tebygol ar unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch y rhagdybiaethau hynny.
>
> Yn benodol, roedd yr Aelodau'n teimlo'n gryf na ellid cynnal pob agwedd ar y gwaith sy'n cael arian grant ar hyn o bryd petai'r arian hwnnw'n cael ei dynnu'n ôl.
>
> Ar ôl trafodaeth hirfaith, roedd Aelodau'r gweithgor yn gytûn y dylid argymell i'r ATA, drwy'r Panel Gweithredol, y dylai'r swyddogion ddatblygu cynigion gyda'r nod, lle bo modd, o ddarparu Gwasanaeth ar yr un lefel, ac mai annerbyniol fyddai penderfynu rhewi neu leihau'r gyllideb ar gyfer y cylch cynllunio nesaf."

4.2 Dywedodd y Trysorydd y dylid bod yn ofalus, a rhoi gwybod i'r Aelodau fod trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Disgwylir y bydd hyd yn oed ragor o bwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol yn y blynyddoedd nesaf, felly bydd angen i'r Awdurdod ystyried yn ofalus a all ofyn am fwy o gyfraniad gan yr awdurdodau lleol.

4.3 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad gan Weithgor y Cynllun Gwella ynghyd â sylwadau'r Trysorydd.**

5 PEIRIANNAU YSGOL AC ESGYNLAWR (PERIANNAU ALP)

5.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead yr adrddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau ynglŷn â darparu peiriannau ALP pan fo eu hangen yn ardal Llandudno ers i nifer y peiriannau yn y Gwasanaeth gael ei lleihau o bedwar i dri.

5.2 Ar y 27 o adegau pryd yr anfonwyd y peiriant ALP i ardal Llandudno, cafodd ei ddefnyddio dair gwaith. Ar ddwy adeg, roedd y peiriant wedi ei droi allan o dan amgylchiadau golau glas ac wedi cyrraedd o fewn amser cyrraedd safonol yr Awdurdod, sef 30 munud. Cafodd yr Aelodau wybod bod y peiriant ALP sydd yng ngorsaf dân y Rhyl ar hyn o bryd yn dod i ddiwedd ei oes ddefnyddiol a bod proses gaffael ar y gweill i brynu un newydd.

5.3 Roedd y Cyng. P R Lewis yn croesawu'r adroddiad, a chadarnhaodd y bydd yn adrodd yn ôl i'w awdurdod cyfansoddol er mwyn lleddfu'r ofnau a fu ar y cychwyn pryd y symudwyd y peiriant ALP o Landudno.

5.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 RECRIWTIO DIFFODDWYR TÂN – Y SYSTEM AR GAEL YN ÔL Y GALW (RDS)

6.1 Cyflwynodd y PST Simmons yr adroddiad a oedd yn rhoi manylion y gweithgarwch diweddar ym maes recriwtio a dethol er mwyn annog pobl i wneud cais i fod yn ddiffoddwr tân ar y system RDS yn eu gorsaf dân leol.

6.2 Y farn oedd fod yr ymgyrch recriwtio ddiweddar yn llwyddiant. Cafwyd amrywiaeth o weithgareddau i ddenu ymgeiswyr, gan gynnwys dosbarthu taflenni yn lleol, codi posteri, rhyddhau datganiadau i'r wasg, cynnal nosweithiau agored ar y gorsafoedd sydd angen diffoddwyr tân, a chael hysbysebion dwyieithog ar y radio ac ar-lein. Cyfanswm y gost o hysbysebu oedd tua £1520, sy'n llawer is na chost dulliau traddodiadol o hysbysebu, megis gosod hysbysebion mewn papurau newydd.

6.3 Cafodd bron 200 o becynnau cais eu dosbarthu. Daeth 107 o geisiadau i law i'w hystyried. O blith y 76 o ymgeiswyr a wahoddwyd i sefyll y gwahanol brofion dethol, mae 25 o unigolion wedi cychwyn ar gam 1 eu rhaglen ddatblygu. Nodwyd bod un ar ddeg o gymunedau wedi eu targedu i dderbyn recriwtiaid newydd, a Phorthmadog oedd yr unig orsaf a oedd heb dderbyn unrhyw ymgeiswyr llwyddiannus.

6.4 I ateb cwestiwn gan un o'r Aelodau a oedd wedi gofyn a oes digon o ddiffoddwyr tân RDS yn eu swyddi i ateb y galw yn y tymor hir, dywedodd y Prif Swyddog Tân fod gwaith yn dal yn mynd ymlaen i chwilio am ddulliau blaengar o sicrhau criwiau ar orsafoedd, er bod y broses hysbysebu wedi darparu 25 o recriwtiaid newydd.

6.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a lefel uchel y llwyddiant wrth recriwtio diffoddwyr tân y system RDS.**

7 PROTOCOL CYFRYNGAU CYMDEITHASU

7.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn gwahodd yr Aelodau i ystyried y protocol drafft ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasu mewn cyfarfodydd, cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.

7.2 Mae'r protocol yn berthnasol i aelodau a swyddogion yr Awdurdod, ynghyd ag aelodau o'r wasg a'r cyhoedd sy'n dymuno defnyddio cyfryngau cymdeithasu yn unrhyw un o gyfarfodydd yr Awdurdod. Mae'r protocol yn atodiad i God Ymddygiad Aelodau'r Awdurdod, a gellid talu sylw i fethiant i ddilyn y protocol wrth ystyried p'un ai yw'r Cod Ymddygiad wedi ei dorri. Cadarnhaodd y PST y bydd swyddog yn mynychu cyfarfodydd i fonitro ac ymateb i sylwadau ar Twitter er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod.

7.3 **PENDERFYNWYD argymell bod y protocol cyfryngau cymdeithasu yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Awdurdod ym mis Mehefin i'w fabwysiadu.**

8 YMGYNGHORIAD AR Y COD YMARFER ARGYMELLEDIG AR GYHOEDDUSRWYDD AWDURDODAU LLEOL YNG NGHYMRU

8.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn gwahodd yr Aelodau i gymeradwyo ymateb yr Awdurdod i'r papur ymgynghori ar y Cod Ymarfer Argymelledig ar Gyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

8.2 Mae'r Cod wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau sydd wedi digwydd ers ei gyhoeddi yn 2001. Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud yn bennaf â diweddaru'r cod i adlewyrchu darpariaethau statudol perthnasol ac i ychwanegu canllawiau ar ffilmio a darlledu cyfarfodydd cynghorau. Mae ymateb yr Awdurdod yn dangos ei gefnogaeth i'r Cod diwygiedig, ac mae'n croesawu'r ffaith ei fod yn gyson â chanllawiau sydd wedi eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r ymateb yn crybwyll y goblygiadau o ran cost ffilmio a darlledu cyfarfodydd, ond hefyd y gost a'r manteision o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasu i hybu negeseuon diogelwch tân ac mewn ymgyrchoedd recriwtio.

8.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad.**

9 CARCHAR YNG NGOGLEDD CYMRU

9.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau ategu cefnogaeth yr Awdurdod i ymrwymiad y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol i weld carchar yn cael ei leoli yng Ngogledd Cymru.

9.2 Gan fod yr Awdurdod yn rhan o'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol, ystyrir mai priodol fyddai i'r Awdurdod ddangos ei gefnogaeth i ymrwymiad y bwrdd i gael carchar yn y rhanbarth. Byddai cael carchar yn y rhanbarth yn dod â manteision economaidd sylweddol, gan gynnwys cyflogaeth sefydlog, ac o ran diogelwch cymunedol rhagwelid y byddai'n gwella'r cyfraddau adsefydlu ac aildroseddu yn yr ardal.

9.3 **PENDERFYNWYD ategu cefnogaeth yr Awdurdod i ymrwymiad y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol i gael carchar yng Ngogledd Cymru.**

RHAN II

10 RHAGLEN GYFALAF 2013/14

10.1 Cyflwynodd y PSTC Claydon yr adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau am raglen gyfalaf yr Awdurdod ar gyfer 2013/14.

10.2 Cwblhawyd y gwaith o gydymffurfio â chydraddoldeb a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ar orsafoedd tân i'r graddau yr oedd hynny'n ymarferol ac yn rhesymol. Nodwyd bod gwaith yn mynd ymlaen ar adeilad y Pencadlys er mwyn gwella'r modd y mae'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth anabledd.

10.3 Roedd swm wedi ei neilltuo ar gyfer mân waith a gwaith cynnal a chadw a oedd yn arfaeth. Byddai'r holl waith wedi ei gwblhau erbyn 31ain Mawrth 2014.

10.4 Gorsaf Dân Nefyn – cafwyd caniatâd cynllunio, a disgwylir y bydd y gwaith adeiladu'n cychwyn yn hwyrach yn y flwyddyn.

10.5 Gorsaf Dân Tywyn – talwyd blaendal i sicrhau darn o dir ar gyfer gorsaf dân ac achub newydd.

10.6 Gorsaf Dân Glannau Dyfrdwy – cwblhawyd y broses o brynu'r orsaf ambiwlans gyfagos. Sefydlwyd bwrdd y prosiect i drafod y dyluniad a'r cyfleusterau, a chynhelir y cyfarfod cyntaf cyn bo hir.

10.7 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad.**

11 PROSIECT TÂN AC AMBIWLANS WRECSAM

11.1 Rhoddodd y PSTC Claydon yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ddatblygiad yr orsaf dân ac ambiwlans arfaethedig ar y cyd yn Wrecsam.

11.2 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth, cafodd yr Aelodau wybod bod llythyr wedi ei anfon ar 8fed Chwefror at Archwilydd Cyffredinol Cymru i ofyn am archwiliad gwerth am arian ar y prosiect. Cytunwyd i aros am ganfyddiadau'r adroddiad hwn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol. Fodd bynnag, dywedodd y PSTC Claydon wrth yr Aelodau fod llythyr wedi ei dod i law gan Swyddfa Archwilio Cymru, dyddiedig 12fed Ebrill, yn dweud nad oedd mewn sefyllfa i gynnal yr archwiliad. Erbyn hyn, mae'r swyddogion wedi penodi archwilydd annibynnol allanol i gynnal y gwaith, a disgwylir y bydd archwiliad interim wedi ei gynnal erbyn cyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn siom nodi faint o amser yr oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi ei gymryd i ymateb i'r llythyr dyddiedig 8fed Chwefror, a gofynodd i gofnod o hyn gael ei wneud.

11.3 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth, roedd yr Aelodau wedi gofyn i'r Prif Swyddog Tân ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am gyfarfod i drafod y prosiect. Anfonwyd y llythyr ar 20fed Mawrth. Daeth ateb i law ar 30ain Ebrill, ac erbyn hyn mae cyfarfod wedi ei drefnu ar 24ain Mai. Gofynnodd y Cyng. Pemberton fod cofnod yn cael ei wneud ynghylch ei siom fod y Gweinidog wedi cymryd cyhyd i ymateb i'r cais.

11.4 Roedd yr Aelodau'n parhau i fod yn bryderus am yr amser yr oedd y prosiect wedi ei gymryd ac roeddent wedi mynegi pryder bod y rhai sy'n gweithio yng ngorsaf Wrecsam yn gorfod gweithio mewn adeilad sydd heb fod yn addas i'r diben.

11.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ac y bydd adroddiad archwilio interim gwerth am arian yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin.**